# CANLLAWIAU AR GYFER GWEITHIO GYDA IFANC AC OEDOLION SY’N AGORED I NIWED

## 1) CYFLWYNIAD

1.1 Mae yna nifer o ffyrdd y gall oedolion proffesiynol yn Theatr y Sherman ddod i gysylltiad â phobl ifanc neu oedolion sy’n agored i niwed yn rhinwedd eu gwaith. Mae gennym Bolisi Pobl Ifanc sy’n rhan greiddiol o'n cylch gwaith; rydym yn gweithio gyda phobl ifanc gan eu bod yn rhan sylweddol o’n cynulleidfa, yn yr awditoria ac mewn mannau eraill yn yr adeilad (ar deithiau cefn llwyfan, er enghraifft). Gall gweithwyr unigol sy'n oedolion fod yn cymryd rhan mewn sesiynau gweithdy gyda 200+ o aelodau ein Theatr Ieuenctid, neu gyda phrosiectau eraill. Bydd actorion a thechnegwyr sy’n oedolion mewn cynyrchiadau yn y Sherman yn aml yn gweithio’n agos â phobl ifanc (e.e. Cynyrchiadau Theatr Ieuenctid a chynyrchiadau llwyfan proffesiynol, lle bo angen). Rydym hefyd yn darparu ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr yn y coleg sydd ar Leoliad Gwaith bob blwyddyn.

1.2 Mae hwn yn faes hynod o sensitif; rydym yn credu ei bod yn briodol gofyn i bob oedolyn sy’n gweithio yn yr adeilad mewn rhinwedd broffesiynol ac nid yn broffesiynol i roi peth amser i feddwl am eu sefyllfa, ac i ddod yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau a bod yn glir ynghylch y cyfrifoldebau hynny.

1.3 Yn ôl Equity: "*there have already been occasions where [trade union] members have faced disciplinary proceedings, suspensions and dismissal as a result of complaints made by young people. A complaint of this nature can have a devastating effect on an individual or a company, even if it proves to be unfounded.*" Yn amlwg, mae er ein lles ni i gyd i weithio tuag at osgoi sefyllfaoedd o'r fath.

1.4 Ni fwriedir i'r nodiadau hyn gymryd lle trafodaeth ynghylch y maes hwn o fewn y cwmni a chyda'r oedolion eraill sy'n defnyddio'r adeilad, ond bwriedir i’r nodiadau ategu’r trafodaethau hynny. Gellir dilyn yr un egwyddorion ag a wneir ar gyfer 'asesiad risg' (sy'n gyfarwydd o’n polisi Iechyd a Diogelwch) i'r maes gwaith hwn; trwy nodi meysydd risg a thrafod y rhain gyda chydweithwyr, mae’n llai tebygol y bydd sefyllfa'n gwaethygu fwyfwy.

## 2) PARATOI

2.1 Dylai personau mewn swydd ag awdurdod (boed hynny'n weinyddwr y cwmni neu'n weithiwr unigol sy’n oedolyn) atgoffa eu hunain beth yw eu rhwymedigaethau cyfreithiol o ran gweithio gyda phobl ifanc, boed hynny’n unigol neu mewn grŵp. Dylai gweithwyr fod yn ymwybodol o'r adegau pan fyddant yn cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd a diogelwch pobl ifanc ar y safle..

2.2 Yn gyffredinol, rydym yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl oedolion sydd ar y safle ar unrhyw adeg, gan gynnwys ymwelwyr a phobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol, yn ymddwyn mewn modd diogel a chyfrifol tuag at unrhyw bobl ifanc sydd hefyd yn digwydd bod yn yr adeilad.

2.3 Mae’n hanfodol bod pobl sy’n ymuno â’n gweithlu (yn barhaol neu dros dro) yn dod i wybod y gallent fod yn aml yn gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc neu’n agos atynt fel rhan o’u cyfnod sefydlu.

2.4 Cyn i unrhyw berson ifanc ymwneud â ni ar leoliad profiad gwaith, bydd asesiad risg yn cael ei gynnal yn unol ag ‘asesiad risg y person ifanc’. Mae pob gweithgaredd arall h.y. gweithdai/teithiau yn cael eu cwmpasu gan asesiadau risg sydd eisoes ar waith.

## 3) YR AMGYLCHEDD GWAITH

3.1 Dylai gweithwyr sy'n oedolion fod yn ofalus bob amser i fod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am bobl ifanc ar y safle, yn enwedig pan fydd y cyfrifoldeb am unigolyn ifanc (neu grŵp) yn cael ei rannu rhwng gweithwyr mewn gwahanol adrannau.

3.2 Dylai oedolion annog pobl i ddefnyddio ystafelloedd a choridorau Theatr y Sherman yn ddiogel a chydag awdurdodiad, a dylent arwain trwy esiampl yn hyn o beth. Dylid annog pobl i beidio defnyddio ystafelloedd a choridorau'r Sherman mewn ffordd anniogel neu amhriodol.

3.3 Dim ond y tu allan i'r adeilad y caniateir ysmygu.

3.4 Ni cheir dod â chyffuriau anghyfreithlon i mewn i adeilad y Sherman; ni cheir chwaith eu cloi mewn cerbyd yn y maes parcio.

3.5 Dylai cyffuriau sydd wedi cael eu rhagnodi gael eu cuddio o olwg pobl ac o'u cyrraedd, yn ddelfrydol mewn cerbyd, ystafell neu gwpwrdd dan glo.

3.6 Pan fydd cwmnïau o bobl ifanc yn yr adeilad, bydd arwyddion priodol yn cael eu harddangos ar draws yr adeilad, gan nodi mannau ar gyfer pobl ifanc yn unig (toiledau, ystafelloedd newid, ystafelloedd ar wahân). Mae mynediad aelodau staff y Sherman i'r mannau hyn yn gyfyngedig. Os oes dryswch, gofynnwch am gymorth gan Reolwr Llwyfan y Cwmni neu'r Rheolwr Ymgysylltu Creadigol.

## 4) CYSWLLT CORFFOROL

4.1 Dyma'r agwedd fwyaf problematig a'r un sydd fwyaf agored i gael ei chamddeall. Yn aml, bydd ein gwaith creadigol yn yr ystafelloedd ymarfer yn dod ag oedolion a phobl ifanc i gysylltiad corfforol uniongyrchol. Bydd plant iau (yn enwedig rhwng 4 ac 8 oed) sy'n rhan o'n cynulleidfaoedd ar brydiau yn dangos awydd gwirioneddol i fynegi diolch a gwerthfawrogiad mewn ffordd gorfforol e.e. gyda chwtsh. Yn achos plentyn neu berson ifanc yn cychwyn y cyswllt corfforol mae hyn yn iawn, fodd bynnag, ni ddylid annog cyswllt o'r fath, a lle bo'n bosibl ac os yw'n briodol dylid cynnig/dangos ffordd arall i'r person ifanc fynegi ei hun e.e. ar lafar neu drwy daro eich dyrnau yn erbyn ei gilydd yn gyfeillgar.

4.2 Er budd diogelu, dylid cofnodi pob achos o gyswllt a gychwynnir gan y plentyn a'i adrodd i'r Rheolwr Llinell fel y gellir cadw golwg ar batrymau.

4.3 Dylid cadw cysylltiad corfforol â phobl ifanc i lefel briodol. Mae angen i'r oedolion dan sylw drafod beth yw'r lefel honno mewn perthynas â darn penodol o waith cyn gwneud y gwaith hwnnw.

4.4 Yn y broses greadigol, gall fod yn briodol gofyn i berson ifanc, yn enwedig person ifanc yn ei arddegau, a yw'n hapus gyda chysylltiad corfforol; dylid gofyn hyn mewn ffordd mor synhwyrol â phosibl.

4.5 Dylid annog plant ifanc i eistedd ochr yn ochr ac nid ar y pen-glin. Os yw plentyn eisiau cwtsh, cynigiwch ysgwyd llaw, neu penliniwch ar ei lefel i sicrhau bod y cwtsh yn cael ei weld yn amlwg fel cwtsh.

4.6 Nid oes angen i bob cyswllt fod yn gorfforol. Gall person ifanc ymddiried mewn oedolyn (gweithiwr) – e.e. drwy sibrwd "dwi'n cael fy mwlio" i'w clust yn ystod gweithdy neu ar ôl sioe. Mae angen cytuno ar broses o ymdrin â'r ymddiriedaeth hon gyda'r person ifanc; e.e. gan awgrymu, os ydynt yn aelod o grŵp ysgol, "Beth am i ni'n dau fynd at dy athro/athrawes a siarad ag ef/hi?" neu os mewn theatr ieuenctid "Beth am i'r ddau ohonon ni siarad am hyn gydag [aelod arall o'r tîm] ar ddiwedd y sesiwn?"

4.7 Yn ogystal, dylid hysbysu'r Arweinydd Diogelu neu Ddirprwy ar y cyfle cyntaf am unrhyw gyswllt corfforol yr ydych yn sylwi arno neu'n rhan ohono gyda phobl ifanc, oedolion sy'n agored i niwed ac oedolion pan fyddwch yn ansicr ynghylch y cyswllt hwnnw neu'n ei ystyried yn amhriodol.

## 5) CRYNODEB

5.1 Nid bwriad y nodiadau hyn yw gwneud i unrhyw oedolyn deimlo'n anghyfforddus ynghylch gweithio gyda phobl ifanc. Y bwriad yw annog pobl i nodi sefyllfaoedd y gellir eu camddehongli fel y gellir cymryd camau i'w hosgoi cyn iddynt godi.

5.2 Os oes gennych unrhyw amheuon, siaradwch â'ch cydweithwyr.

Os oes gennych unrhyw amheuon wedi hynny, siaradwch â'ch rheolwr llinell yn y Sherman.

## 6) MYND AR DAITH I YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL BLE CEIR POBL IFANC

Fel cwmni sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc o ddydd i ddydd, mae gan holl aelodau'r cwmni gyfrifoldeb arbennig i gynnal y safonau ymddygiad proffesiynol uchaf bob amser. Pan fyddant ar dir yr ysgol, mae'n ofynnol i aelodau'r cwmni a phobl ifanc ar Brofiad Gwaith wisgo cortyn gwddf Theatr y Sherman bob amser pan nad ydynt yn perfformio. Dylid llunio asesiad risg ar gyfer pob cynhyrchiad teithiol

6.1 Wrth gyrraedd ysgol gwnewch yn siŵr bod aelodau'r cwmni'n cerdded o flaen, y tu ôl neu wrth ochr y cerbyd o'r eiliad y byddwch yn cyrraedd tir yr ysgol fel bod elfen ychwanegol o warchodaeth.

- Gyrrwch yn araf iawn ar y safle a chymerwch ofal arbennig wrth symud am yn ôl yn y cerbyd.
- Wrth barcio (hyd yn oed os gwneir hynny am gyfnod byr) peidiwch byth â rhwystro allanfeydd tân. Unwaith y bydd y fan wedi'i dadlwytho, parciwch hi yn y maes parcio yn unol â chyfarwyddyd yr ysgol/lleoliad.
- Cadwch y fan dan glo bob amser ar safle'r ysgol/lleoliad.
- Peidiwch byth â rhoi lifft i ddisgybl yng ngherbyd y cwmni.

6.2 Dylid anfon un person i'r ysgol i gysylltu â'r person cyswllt neu ysgrifennydd yr ysgol.

Dylai'r person hwnnw fod yn barod gyda set o gwestiynau cyffredin. Ar wahân i'r manylion technegol at ddibenion mynediad, byddai'r rhain yn cynnwys:

- A oes llyfr ymwelwyr? Os felly, dylai'r holl bersonél ei lofnodi i ar y ffordd i mewn ac allan
- Ble mae toiledau'r staff? (Peidiwch byth â defnyddio toiledau'r plant)

- Beth yw'r trefniadau ar gyfer amser bwyd?
- Rhoi gwybod i'r person cyswllt am unrhyw ymwelwyr disgwyliedig e.e. cynrychiolwyr ariannu, pobl bwysig sy'n ymweld, cynghorwyr, aelodau bwrdd ac ati.
- Gofyn am fanylion y drefn pe bai tân a chymryd sylw o'r allanfeydd tân.

6.3 Rhaid gwneud gofod perfformio a pharatoi yn fannau na cheir mynd iddyn nhw hyd nes i'r sioe ddechrau.

- Gofynnwch am ardal newid breifat ac, os yn bosibl, ardal newid y gellir ei chloi.
- Peidiwch â derbyn cymorth gan y plant gyda'r set neu waith paratoi. Ni ddylent fod yn y gofod perfformio.
- Unwaith y bydd y gofod perfformio wedi'i osod, gwnewch wiriad iechyd a diogelwch cyn caniatáu i'r plant gael eu gadael i mewn.
- Dylai aelodau'r cwmni aros yn y man perfformio a pharatoi, ac osgoi crwydro o gwmpas yr ysgol.

6.4 Mae ymddygiad o amgylch yr ysgol/lleoliad yn bwysig iawn. Arhoswch mewn ardaloedd y caniateir bod ynddynt a dylech osgoi crwydro o amgylch y lleoliad. Os oes angen i aelod o'r cwmni fynd i rywle arall yn yr ysgol, gwnewch yn siŵr yr ymgynghorir â swyddfa'r ysgol a symudwch o gwmpas yr ysgol yn dawel – gan osgoi gweiddi, chwerthin yn uchel neu unrhyw sŵn diangen.

6.5 Peidiwch byth â gweithio na pherfformio heb bresenoldeb athrawon. Pan fydd gwarcheidwad yn bresennol, gwnewch yn siŵr eu bod wedi cael eu briffio'n llawn gan yr ysgol.

6.6 Cadwch y fan ar glo bob amser pan fyddwch ar dir yr ysgol.

6.7 Peidiwch byth â gadael y fan yn blocio drws mynediad. Parciwch yn rhywle arall yn ystod y sioe.

6.8 Peidiwch ag ysmygu yn unrhyw le ar dir yr ysgol (gan gynnwys y fan) oni bai ei fod mewn man ysmygu dynodedig.

6.9 Peidiwch â mynd â chyffuriau anghyfreithlon i safle'r lleoliad, gan gynnwys eu cloi yn y fan.

6.10 Dylai cyffuriau sydd wedi eu rhagnodi fod wedi eu cuddio ac allan o gyrraedd y plant, yn y fan dan glo yn ddelfrydol

6.11 Ni ddylid mynd ag alcohol i safle'r ysgol neu leoliad o dan unrhyw amgylchiadau ac ni ddylai aelodau'r cwmni yfed alcohol cyn cyrraedd yr ysgol. [gweler y Llawlyfr Staff ar gyfer Polisi Theatr y Sherman ar Alcohol a Chyffuriau].

6.12 Dylid cymryd yr un gofal wrth adael y lleoliad ag a wnaed wrth gyrraedd

6.13 Sicrhewch fod yr iaith a ddefnyddir a'r sgwrs yn briodol.

6.14 Sicrhewch nad yw eich gweithredoedd yn groes i reolau'r ysgol.

6.15 Rydych chi'n llysgennad i'r Cwmni ac yn fodel rôl i'r plant: gwnewch yn siŵr bod popeth amdanoch chi'n adlewyrchu hyn.

6.16 Dylech chi gymryd cyfrifoldeb am glirio'r gofod yn gyfan gwbl ar ôl y perfformiad. Ewch ag unrhyw sbwriel gyda chi.

6.17 Rhowch wybod am unrhyw ddamweiniau neu unrhyw beth yn torri ar unwaith.

## 7) GWEITHDREFN PAN FO DAMWAIN

7.1 Y sawl sy'n arwain ymarfer neu weithdy sy'n gyfrifol am ddiogelwch aelodau'r theatr ieuenctid. Cyn i'r ymarfer ddechrau, sicrhewch fod y gofod yn glir o unrhyw beryglon a pheidiwch â gadael y bobl ifanc heb oruchwyliaeth.

7.2 Os bydd damwain yn digwydd, rhaid rhoi gwybod i'r dderbynfa ar unwaith. Sicrhewch fod y person a anafwyd yn gyfforddus ac nad yw'n cael ei adael ar ei ben ei hun.

7.3 Os oes angen cymorth cyntaf, sicrhewch fod swyddog cymorth cyntaf yn bresennol. Mae'r rhestr staff yn dynodi pa aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn cymorth cyntaf – bydd staff y dderbynfa yn gallu dod o hyd i rywun i chi.

**Mae blychau cymorth cyntaf wedi eu lleoli yn y mannau a ganlyn:**
Y Swyddfa Flaen
Y Gegin Flaen
Yr Ystafell Werdd
Gweithdy
Y Prif Lwyfan
Y Gweithdy Goleuo
Y Cwpwrdd Dillad
Ystafell Reoli'r Prif Lwyfan
Ystafell Reoli'r Stiwdio

7.4 Rhaid cofnodi pob damwain. Gellir cael ffurflenni adrodd am ddamweiniau o'r dderbynfa a'r brif swyddfa a rhaid eu llenwi'n llawn gyda chopïau'n cael eu dosbarthu i'r aelodau perthnasol o staff – y Cyfarwyddwr Gweithredol a'r Pennaeth Cyllid a Gweinyddu.

7.5 Os yw'r ddamwain yn cael ei hystyried yn un ddifrifol, rhaid cysylltu â'r rhiant/rhieni a galw am ambiwlans. Os na all y rhiant/rhieni gyrraedd y Sherman ar unwaith, bydd y plentyn yn cael ei roi yng ngofal y parafeddygon. Rhaid i'r dderbynfa nodi i ba ysbyty y mae'r ambiwlans yn mynd a throsglwyddo'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r rhieni.

7.6 Os oes angen ymweliad â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ond nad oes ambiwlans, gellir trefnu tacsi wrth ddrws y llwyfan os na all y rhiant/rhieni gyrraedd y Sherman ar unwaith. Rhaid i aelod o staff Theatr y Sherman fod gyda'r person ifanc nes bod y rhiant/rhieni yn cyrraedd yr ysbyty. Ni chaiff plentyn deithio mewn tacsi ar ei ben ei hun o dan unrhyw amgylchiadau.

7.7 Os nad oes staff ar gael ac na ellir cysylltu â rhieni, bydd yn rhaid galw ambiwlans.

7.8 Ni chaiff plentyn deithio mewn car sy'n perthyn i aelod o staff dan unrhyw amgylchiadau.

## 8) CANLLAWIAU GWRTH-FWLIO

Diben y canllawiau hyn yw:

- Amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau Theatr Ieuenctid y Sherman.
- Rhoi i gyflogeion yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'n dull o atal pobl ifanc rhag cael eu bwlio a pha gamau i'w cymryd os bydd hynny'n digwydd.

8.1 Ein nod yw gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl ifanc trwy ddatblygu nid yn unig eu doniau creu theatr, ond y sgiliau hynny sydd eu hangen y tu allan i le creadigol, ym mha bynnag drywydd y maent yn dewis ei ddilyn. Rydym yn ymwybodol bod pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder a'i allu ei hun bob amser yn gysylltiedig ag oedran neu amgylchiadau ac rydym am wneud eu profiad mor ddiogel ac iach â phosibl.

8.2 Dylid rhoi sylw i ddigwyddiad o fwlio fel pryder am amddiffyn plant pan fo 'achos rhesymol i amau bod plentyn (neu berson ifanc) yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol' (Deddf Plant 1989). Lle mae hyn yn wir, bydd y Sherman yn adrodd am eu pryderon i adran gwasanaethau cymdeithasol eu hawdurdod lleol.

8.3 Er ein bod yn ymwybodol bod digwyddiadau amrywiol a lluosog yn digwydd o fewn sesiynau gyda phobl ifanc, byddai'r Sherman yn awgrymu bod y rhestr a ganlyn yn enghreifftiau na fyddent fel arfer yn cael eu hystyried yn fwlio, ond yn dibynnu ar y difrifoldeb dylid eu cofnodi ar daflen digwyddiadau eich gweithdy a hysbysu'r Rheolwr Ymgysylltu Creadigol.

- Ffraeo ymhlith ffrindiau
- Cwffio/ffraeo sy'n digwydd unwaith yn unig
- Dadlau neu anghytuno
- Ymosodiad sy'n digwydd unwaith yn unig
- Dweud pethau cas a chwareus

**8.4 Pam ei bod yn bwysig atal a herio bwlio**

8.41 Mae herio bwlio yn flaenoriaeth i bob aelod o dîm Theatr y Sherman oherwydd mae'r Sherman wedi ymrwymo i sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo'n ddiogel mewn sesiynau ac yn cael eu cefnogi i allu cyrraedd eu llawn botensial. Mae gan bob person ifanc yr hawl i gael ei drin yn gyfartal.

8.42 Mae herio bwlio drwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a chreu amgylchedd dysgu cynhwysol i bob myfyriwr yn hanfodol. Mae bwlio yn ymddygiad dynol ymosodol a welir yn aml ac a all arwain at blant yn mynd yn ofnus, yn unig ac yn ynysig yn gymdeithasol.

8.43 Mae Gweithgaredd Ymgysylltu Creadigol Theatr y Sherman yn addysgu plant a phobl ifanc am barch, ymddygiad positif a meithrin hyder i allu herio ymddygiad ac iaith annerbyniol. Mae gan yr ysgol ddull addysgiadol ragweithiol a pholisi ymddygiad gyda sancsiynau os oes angen.

### 8.5 Arwyddion y gallai person ifanc fod yn profi bwlio

8.51 Gall person ifanc ddweud yn uniongyrchol wrth aelod o dîm y Sherman ei fod yn cael ei fwlio ond gall rhieni/gwarcheidwaid gysylltu â'r Sherman gyda phryderon am fwlio.

8.52 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi'r arwyddion posibl canlynol i edrych amdanynt yn ymddygiad person ifanc wrth ystyried a oes bwlio yn digwydd:

- Dillad neu offer wedi eu distrywio.
- 'Colli' eiddo.
- Cyrraedd gartref neu gyrraedd sesiynau gydag anafiadau neu friwiau.
- Cyndyn o gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yr oeddent yn dangos diddordeb ynddynt yn flaenorol.
- Trafferth cysgu / edrych yn flinedig.
- Newid mewn ymddygiad, e.e. colli awydd am fwyd.
- Newidiadau amlwg mewn tymer - bod yn llai cymdeithasol, yn isel, yn flin, yn ddagreuol, yn ddigalon, yn orbryderus neu'n anhapus.
- Eisiau newid i grŵp neu sesiwn wahanol.

### 8.6 Sut y byddwn yn atal bwlio yn y Sherman:

8.61 Mae dull y Sherman o atal bwlio yn canolbwyntio ar y cyfranogwr ac nid yw'n colli golwg ar anghenion y person sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd, ni waeth a ydynt yn gwneud y bwlio, yn wynebu'r bwlio neu'n gwylio'r bwlio'n digwydd o bellter.

8.62 Mae'r Sherman yn cydnabod yr angen i wrando'n effeithiol ar gyfranogwyr a'u helpu i ddatblygu gwytnwch trwy ymarfer y sgiliau datrys problemau a phendantrwydd sydd eu hangen arnynt i herio ymddygiad annerbyniol.

8.63 Mae'r rhestr ganlynol – er nad yw'n hollgynhwysol – yn ffyrdd y mae'r Sherman yn helpu i gefnogi cyfranogwyr i weld pan fo bwlio'n digwydd ac i'w atal:

- Cyfathrebu Effeithiol – rydym yn canolbwyntio ar ymddygiad a chamau gweithredu positif, gan bwysleisio'r hyn y dylai cyfranogwyr fod yn ei wneud yn hytrach na pheidio â'i wneud. Rydyn ni'n gwneud cyfranogwyr yn ymwybodol bod y gweithdy neu'r gofod ymarfer yn gymuned a bod gennyn ni i gyd ran gyfartal i'w chwarae ynddi.
- Ymyrraeth – rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a thechnegau i ddod i ddeall pam mae rhai geiriau ac ymddygiadau yn annerbyniol ac na ddylid eu defnyddio mewn sesiynau.
- Cynnwys y Sesiwn – Rydyn ni'n rhoi gwybod i'r holl gyfranogwyr bod y broses o greu theatr yn cynnwys rôl ganolog meithrin perthnasoedd, ymddygiad positif a gwytnwch – sydd i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i atal bwlio. Gyda phobl ifanc mae ein gwaith yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r pedwar diben allweddol i gefnogi pob dysgwr i ddod yn unigolion moesegol, gwybodus, iach a hyderus sy'n barod i ddysgu.

Mae'r Sherman yn gweithredu ac yn dilyn y weithdrefn gwrth-fwlio ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd tra bod cyfranogwyr mewn sesiynau, ymarferion, perfformiadau ac o fewn ein hadeilad.

**8.7 Sut i adrodd bwlio ac ymateb iddo**

8.71 Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am adrodd ac ymateb i achosion o fwlio. Lle bo modd, dylid cadw gwaith papur a sgyrsiau dilynol a'u cofnodi yn unol â'r gweithdrefnau diogelu fel y'u dogfennir yn ein polisi 'Beth i'w wneud os ydych yn meddwl bod plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed mewn perygl'.

8.72 Os yw aelod o staff yn pryderu am gyfranogwr, rhaid iddynt adrodd y pryder hwnnw drwy'r ffurflen digwyddiad mewn gweithdy, a dylid tynnu sylw'r tîm diogelu at hyn hefyd..

8.73 Gall cyfranogwyr adrodd am fwlio i aelod o staff y Sherman y maent yn ymddiried ynddo. Rhaid i'r aelod o staff wrando i helpu'r dysgwr sy'n cael ei dargedu i deimlo bod rhywbeth yn cael ei wneud am ei broblem. Yna mae'n rhaid iddynt roi gwybod am y pryder hwn drwy'r ffurflen digwyddiad mewn gweithdy, a dylid tynnu sylw'r tîm diogelu at hyn hefyd.

8.74 Mae'r Sherman yn mabwysiadu 'Dull Dim Bai' i helpu i dawelu'r sefyllfa ac i addysgu'r sawl sy'n bwlio am ganlyniadau ei ymddygiad. Mae'r Sherman yn gwrando ar y ddwy ochr.

8.75 Unwaith y bydd y ffurflen digwyddiad wedi'i chwblhau, cytunir ar y camau nesaf. Bydd y tîm diogelu yn cymryd cyfrifoldeb am benderfynu ar y camau nesaf i'w cymryd.

8.76 Rydym yn cynnig dulliau cyfryngu a dulliau adferol i ddatrys achosion o fwlio. Rydym yn gweithio gyda'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad i gytuno ar ateb.

8.77 Yn dilyn ymyrraeth lle cytunwyd ar ddatrysiad, bydd digwyddiadau pellach o fwlio yn cael eu trin gan sancsiynau. Bydd sancsiynau yn adlewyrchu difrifoldeb y digwyddiad, ac mae hyn yn helpu eraill i weld bod bwlio yn annerbyniol.

8.78 Bydd digwyddiadau difrifol o fwlio a rhai sy'n digwydd yn aml yn cael eu hadrodd i Awdurdod Lleol Caerdydd yn unol â'u polisi.

Dylid cwblhau pob dogfen a'i chadw ar ffeil.

I gael rhagor o wybodaeth am fwlio yn gyffredinol, darllenwch adran 3.03 o'r Polisi Iechyd a Diogelwch.

Dyddiad diweddaru: 12.06.2023
Wedi'i fonitro a'i adolygu: 11.06.2015 (Pwyllgor AD a llywodraethu)
Cymeradwywyd gan y Bwrdd: 12.06.2023
Dosbarthwyd i'r Staff a'r Gwirfoddolwyr:
Cyhoeddwyd ar wefan Theatr y Sherman: